**Blodyn y Gwaed**

Fe fwres i ‘mhen. Goeliech chi byth
faint o waed ddaw o’r talcen: disgynnodd
yn rhwyd, fel llen het goctél, a gorlifo
dros wefus cwpan fy llaw. Rhedais allan

i’r stryd, fel un mewn gorymdaith, yn tasgu
rhubannau ysgarlad i ddathlu ‘mod i’n ffynnon
gyhoeddus o haemoglobin -  pistyll y llan! -

mam y briodferch yn ei fascinator,
plu carmin yn crynu - to uwch fy mhen
cyn ffurfio utgorn ysgarlad, corn gwlad

Amaryllis yn cyhoeddi ‘mod i’n dechrau blino,
felly dewch a’ch piser cyn i’r clwyf geulo…

*Gwyneth Lewis*